**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED A MENTER**
**14 MEHEFIN 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NA ddydd Mercher, 14 Mehefin 2017.

**YN BRESENNOL: Cynghorydd David Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sian Braun, Jean Davies, Ron Davies, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Dennis Hutchinson, Ted Palmer, Michelle Perfect, Mike Reece a Paul Shotton.

**DIRPRWYON:** Cynghorwyr Haydn Bateman (ar ran George Hardcastle), Patrick Heesom (ar ran Ray Hughes) a David Wisinger (ar ran Ron Hampson)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Tai

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorwyr Christine Jones a Vicky Perfect

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygiad Economaidd, Prif Swyddog (Cymuned a Menter) a'r Rheolwr Menter ac Adfywio

**YN MYNYCHU:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog y Pwyllgor

## 1. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor fod o'r Grŵp Llafur. Gan y penodwyd y Cynghorydd Ron Hampson i'r rôl hon gan y Grŵp, gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r penderfyniad.

**PENDERFYNWYD:**

Cadarnhau'r Cynghorydd Ron Hampson fel Cadeirydd y Pwyllgor.

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebodd y Cynghorydd Haydn Bateman y Cynghorydd Ian Dunbar fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Paul Shotton.

Ar ôl cynnal pleidlais, penodwyd y Cynghorydd Ian Dunbar fel Is-gadeirydd y Pwyllgor. Cymerodd y Cynghorydd Ian Dunbar y Gadair am weddill y cyfarfod.

Yn dilyn awgrym gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson, cytunwyd y byddai'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn anfon llythyr ar ran y Pwyllgor i fynegi ei ddymuniadau gorau i'r Cadeirydd am adferiad buan a chyflym.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Ian Dunbar fel Is-gadeirydd y Pwyllgor.

## 3. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2017.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5. DATGANIAD YNGLŶN Â GRENFELL TOWER

Gan nad oedd yr Aelod Cabinet wedi gallu dod i'r cyfarfod, gwnaeth y Prif Swyddog (Cymuned a Menter) ddatganiad ar ei ran. Yn dilyn y newyddion trist a brawychus iawn o Lundain ynglŷn â'r tân yn Grenfell Tower, eglurodd y bydd Gwasanaeth Tai'r cyngor yn ysgrifennu at ei denantiaid yn egluro'r mesurau amddiffynnol sydd gennym yn eu lle, i sicrhau diogelwch ein tenantiaid mewn achos o dân.

Yn Sir y Fflint, mae gennym dri bloc o fflatiau. Sef Castle Heights, Bolingbroke Heights a Richard Heights yn y Fflint. Mae pob un o'r rhain yn destun asesiad risg tân wedi'i reoli. Mae pob un wedi'u hailwampio'n ddiweddar, gyda nifer o fesurau amddiffynnol wedi'u cynnwys yn yr ailwampiad hwnnw. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- Gosod systemau chwistrellu. Mae systemau chwistrellu wedi'u lleoli ledled eiddo'r tenantiaid ac ardaloedd cymunedol. Cafodd cyfarfodydd i denantiaid eu cynnal gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub i egluro'r rhesymau dros osod y systemau chwistrellu a chyngor diogelwch tân allweddol.

- Gosod drysau tân amddiffynnol ym mhob eiddo tenant.

- Roedd gwaith ailwampio'r tri eiddo hefyd yn cynnwys gosod inswleiddio wal allanol. Wrth benderfynu ar y math o inswleiddio ar gyfer ein heiddo, fe wnaeth ein hymchwil cefndirol gynnwys ymweliadau â'r ganolfan hyfforddi Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghanolbarth Lloegr i weld arddangosiadau, i'n helpu i benderfynu ar yr inswleiddio wal allanol i'w osod yn ein heiddo.

- Drwy bob un o'n blociau o fflatiau, mae gennym synwyryddion mwg yng nghynteddau ein tenantiaid, yn ogystal â synwyryddion gwres mewn ceginau; ac mae'r synwyryddion yn cael eu monitro.

- Mewn ardaloedd cymunedol (grisiau, ystafelloedd sgwter, golchi dillad a chanolfannau cymunedol), mae gennym synwyryddion mwg sy’n cael eu monitro’n uniongyrchol gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae synwyryddion mwg hefyd yn eu lle yn ein hardaloedd cynnal a chadw (ystafelloedd peiriannau generadur a boeleri, yn ogystal â storfeydd biniau).

Yn ogystal â mesurau amddiffynnol corfforol, rydym yn sicrhau ein bod â chyfres lem o weithdrefnau arolygu sy’n ymdrin â phob agwedd ar yr eiddo. Mae’r mesurau hyn yn cynnwys:

- Asesiadau risg o dân (Castle Heights yn Chwefror 2017; Bolingbroke Heights Rhagfyr 2016 a Richard Heights Chwefror 2017);
- Profi’r larwm bob wythnos;
- Arolygiadau chwarterol o synwyryddion mwg; profi goleuadau mewn argyfwng bob mis;
- Gwiriadau annibynnol bob 6 mis o bob diffoddwr tân;
- Cynhyrchu log tân wythnosol, sy'n nodi symudiadau tenantiaid;
- Datblygu cynlluniau personol gadael eiddo mewn argyfwng, yn nodi gallu bob tenant unigol i adael yr eiddo mewn argyfwng.

Yn hwyrach ymlaen ar ddydd Mercher, 14 Mehefin, byddai staff yn ymweld â’n holl denantiaid yn y blociau fflatiau i roi gwybodaeth am fesurau sydd gennym yn eu lle, a rhoi tawelwch meddwl iddynt ynghylch yr ymrwymiad sydd gennym fel cyngor i'w diogelwch personol.

## 6. AELODAU’R CYHOEDD A’R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelodau o’r wasg na’r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10.05am)

…………………………

**Cadeirydd**